# Adeiledd a bondio metelig

**1** Mae'r diagram yn dangos sut mae atomau metel yn bondio â'i gilydd i ffurfio solid metel.




(a) Labelwch y diagram. **(2 marc)**

(b) Enwch y math o fondio yn y solid metel wedi'i fondio.

______________________________ **(1 marc)**

(c) I ba grŵp yn y tabl cyfnodol mae'r metel hwn yn perthyn?

______________________________ **(1 marc)**

(d) Rhowch ddau wahaniaeth rhwng y gronynnau yn yr atomau metel heb eu bondio a'r gronynnau yn y solid metel wedi'i fondio.

- ______________________________

______________________________

- ______________________________

______________________________ **(2 marc)**

(e) Enwch y grym sy'n bodoli rhwng y ddau wahanol fath o ronynnau yn y solid metel wedi'i fondio.

______________________________ **(1 marc)**

(f) Disgrifiwch sut:

i. mae'r gronynnau sydd â gwefr bositif yn symud mewn solid metel wedi'i fondio

______________________________ **(1 marc)**

© 2025 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

ii. mae'r gronynnau sydd â gwefr negatif yn symud mewn solid metel wedi'i fondio.

______________________________ **(1 marc)**

(g) Enwch y math o adeiledd sy'n cael ei ddangos yn y diagram o solid metel wedi'i fondio.

______________________________ **(1 marc)**

(h) Rhowch ddwy ffordd y byddai'r diagram yn wahanol pe bai'n cynrychioli'r bondio mewn metel magnesiwm.

______________________________

______________________________ **(2 marc)**

(i) Eglurwch eich ateb i ran (h).

______________________________

______________________________ **(2 marc)**

**2** Mae'r tabl yn dangos rhai o briodweddau ffisegol copr:

| | |
|---|---|
| **Ymdoddbwynt/°C** | 1083 |
| **Berwbwynt/°C** | 2595 |
| **Dargludedd trydanol a gwres** | mae copr yn ddargludydd trydan a gwres rhagorol |
| **Hydrinedd** | mae copr yn hydrin |

Eglurwch bob priodwedd. Dylech gyfeirio at adeiledd a bondio metelig.

(a) Ymdoddbwynt:

______________________________

______________________________

______________________________ **(2 marc)**

(b) Berwbwynt: ______________________________

______________________________

______________________________ **(2 marc)**

(c) Dargludedd trydanol a gwres: ______________________________

______________________________

______________________________ **(2 marc)**

© 2025 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

(d) Hydrinedd: ______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________ **(2 marc)**

**3** Mae'r diagramau hyn yn cynrychioli'r gronynnau mewn metel pur ac mewn aloi.





(a) Beth yw aloi?

______________________________________________

______________________________________________ **(1 marc)**

(b) Disgrifiwch beth fydd yn digwydd pan roddir grym yn llorweddol ar y metel pur.

______________________________________________

______________________________________________ **(1 marc)**

(c) i. Disgrifiwch beth fydd yn digwydd pan roddir grym yn llorweddol ar yr aloi.

______________________________________________

______________________________________________ **(1 marc)**

ii. Eglurwch y rheswm am hyn.

______________________________________________

______________________________________________ **(1 marc)**

(d) Eglurwch pam mae aloion yn cael eu defnyddio at ddibenion gwahanol i fetelau pur.

______________________________________________

______________________________________________ **(1 marc)**

[Cyfanswm: 27 marc]

© 2025 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

Pa gwestiwn/gwestiynau a gawsoch chi'n anghywir? Pam?

Beth fyddwch chi'n ei wneud y tro nesaf y gofynnir cwestiwn tebyg i chi?

© 2025 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol